Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanddeiniolen 12fed o Dachwedd 2024

Croeso a Gweddi.
Rhoddwyd Croeso gan y Cadeirydd a gair o weddi gan Idris Thomas

Presennol
Y Cadeirydd Jane Pierce ynghyd a'r cynghorwyr Elwyn Jones, Phyllis Ellis, Ellen George, Gareth Hughes, Gareth W Griffiths, Ynyr Parri, Idris Thomas, a chroesawyd Berwyn Parry Jones.
Cafwyd presenoldeb gan y Cynghorydd Elfed Wyn Williams ar ddechrau'r cyfarfod, i nodi ei fod yn ymddiswyddo o'r Cyngor Cymuned yn dilyn 15 mlynedd o wasanaeth. Cefnogwyd hyn gyda llythyr swyddogol ganddo.
Nid ydym fel Cyngor eisiau derbyn ei ymddiswyddiad, ond dyna yw ei ddymuniad. Rydym yn ddiolchgar dros ben iddo am ei waith a'i fewn bwn o fewn y Cyngor Cymuned dros y blynyddoedd a fu, bydd colled a bwlch gwag ar ei ôl. Dymunwn y gorau iddo yn ei waith fel Cynghorydd ward Deiniolen.

Ymddiheuriadau.
Lowri James. Emma Chappell, Dawn Parry, Sasha Williams a Rhian Evans-Hill

Datgan Buddiant
Nodwyd fod Idris Thomas ddim am fod yn rhan o'r drafodaeth am y llythyr a dderbyniwyd gan Gyfeillion H R Jones.

Cofnodion Cyfarfod y 1af Hydref 2024
Cafwyd y Cofnodion yn gywir a nodwyd fod yr holl benderfyniadau wedi eu gwneud yn unfryd gan Y Cyngor:

Elwyn Jones (1) **Phyllis Ellis (2)**

Materion o'r Cofnodion.
Llythyrau Diolch - Derbyniwyd 3 llythyr yn diolch am rodd ariannol gan, Clwb Snwcer Deiniolen, Pwyllgor Pentra Deiniolen ac Eisteddfod Bentref Penisa'r-waun.
Llythyr gan Glwb Bro Bethel a Chyfeillion H R Jones - Derbyniwyd llythyr a nodwyd ei gynnwys. Bydd y clerc yn ymateb i'r ddau.

Gohebiaeth a Materion Eraill
Llythyr Cais am gyfleoedd gwaith i bobl ifanc ac anableddau - Y clerc i gysylltu yn gofyn iddynt ddod am sgwrs ym mis Rhagfyr.
Arolwg Trefniadau Etholiadol - Bydd y Cyngor yn trafod ymhellach mis nesaf.
Gwelliant Llwybr hyd Lŷn Padarn - Derbyniwyd cais i gefnogi gwelliant i lwybr o amgylch llwybr trên y llyn, i alluogi mynediad i'r anabl, beicwyr, plant a'r henoed, gan fod y llwybr yn hynod anwastad ar hyn o bryd. Mae'r Cyngor yn hollol gefnogol i hyn.

Cynllunio.

Dyma'r ceisiadau a dderbyniwyd:

C24/0834/18/TC - Tros y Waun Fach, Lon Castell, Rhiwlas.

Tystysgrif cyfreithloni ar gyfer lleoli carafán o fewn cwrtil tŷ annedd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r tŷ annedd presennol ac yn atodol iddo.
Penderfyniad - Nid oes Gwrthwynebiad

C24/0853/18/LL - Tir ger Tyn Clwt, Deiniolen

Mynedfa Gerbydol Newydd.
Penderfyniad - Rhaid gwarchod y llwybr cyhoeddus sydd yn mynd trwy'r tir a'r cais i adran briffyrdd wneud yn sicr fod yr adwy yn ddiogel, gan fod yn le ddigon peryg i ddod allan o bob ochr.

C24/0600/18/CR - Erw Pwll y Gro, Pontrug.

Amnewid ffenestr yn ôl i ddrws ar edrychiad cefn a chreu agoriad newydd mewnol.
Penderfyniad - Dim Gwrthwynebiad

G24 / 0168 - Parciau Rhos Bethel

Newid defnydd tir ar gyfer lleoli 4 carafán sefydlog i ddefnydd preswyl ynghyd a thor amod cynllunio 4 ar gais cynllunio C24/0103/18/LL
Rydym yn ddiolchgar i'r adran gorfodaeth am ymweld â'r safle yma yn sgil y cais cynllunio a dderbyniwyd, ac yn falch fod camau wedi cytuno yn dilyn trafodaethau a'r perchennog.

Adroddiad Comisiwn Cymunedau Cymreig

Derbyniwyd yr adroddiad ar arwyddwyd y ddogfen i gefnogi.

Adroddiad o'r Is bwyllgor Cyllid

Bu i'r pwyllgor gyfarfod cyn y cyfarfod llawn, gan gychwyn ar drafodaeth gosod cyllideb i ddarganfod anghenion praesept eleni. Mae'r pwyllgor yn edrych yn fanwl ar gyllido 5 mlynedd. Yn y 5 mlynedd diwethaf, rydym wedi cadw'r praesept mor isel â phosib, ond gan sicrhau fod cyllid i wneud pethau angenrheidiol ac ychydig ychwanegol wrth gefn.

- Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi edrych ar gysgodfa bws, ac wedi gosod 4 yn ystod y cyfnod. Rydym hefyd yn gweithio ar un arall, ac yn amlwg yn dangos fod angen ffigwr i mewn bob blwyddyn.
- Yn dilyn cynllun hyfforddiant, mae'r pwyllgor yn edrych am barhau gyda chlustnodi swm, lle y disgwylir fod cynghorwyr yn gwneud ymdrech i fynychu a derbyn hyfforddiant.
- Mae'r Cyngor wedi cytuno i gyllido 3 clwb ieuenctid yn flynyddol. Eleni mae 2 wedi cychwyn a gobeithio bydd y 3ydd yn cychwyn yn fuan. Bydd hyn ar gost o ddeutu £16 mil y flwyddyn.
- Rydym dal yn credu ein bod angen parhau i wella ein llwybrau. Rydym eisoes wedi gwario oddeutu £20 mil dros y 3 blynedd diwethaf, Roedd yr arian hwn wedi dod yn sgil tan wario yn ystod blwyddyn Cofid, felly bydd rhaid parhau i osod swm i atal y llwybrau ddisgyn yn ôl i safonau is radd ac i sicrhau gwelliant ar y rhai eraill.
- Rydym hefyd dal am glustnodi am brosiectau cymunedol a rhoddion i fudiadau yn flynyddol.

Mae'n bwysig ac yn ofynnol arnom i osod praesept, a rŵan ydi'r amser i feddwl ac ar beth fyddwn yn penderfynu ariannu, beth sydd am ei flaenoriaethu. Byddwn hefyd yn gosod rhaglen a chyllideb dros 5 mlynedd a hynny gan ystyried chwyddiant.

Partneriaeth Dyffryn Peris

Derbyniwyd cais i ymuno a'r bartneriaeth a fydd yn debyg iawn i'r un sydd yn rhedeg yn bresennol yng nghyffiniau Dyffryn Ogwen, Mae sawl menter gymdeithasol weithgar o fewn yr ardaloedd a enwir gyda nifer uchel o sgiliau ond fod capiasit i weithredu yn gydlynol o fewn yr ardal ar goll. Er bod y Cyngor yn gefnogol mewn egwyddor, ond gan fod sawl pentref o fewn Cymuned Cyngor Llanddeiniolen, mae'n anodd rhoi swm o arian i mewn pan fydd ond un canran neu bentref o'r Cyngor Cymuned yn elwa. Byddwn yn cysylltu i drafod hyn ymhellach.

Sefydlu is Bwyllgor Cronfa'r Diweddar Ken Harris

Yn dilyn ein penderfyniad i gyd weithio gyda 4 ysgol gynradd y gymuned ar greu prosiect yr un, penderfynwyd sefydlu is bwyllgor i allu symud hyn ymlaen yn fuan yn y flwyddyn newydd.

Cytunwyd bydd y Cynghorwyr isod yn dod at ei gilydd, ac yn rhydd yn ystod y dydd i allu cydweithio gyda'r ysgolion.

Elen George
Gareth Hughes
Phyllis Ellis
Idris Thomas
Elwyn Jones

Y cam nesaf yw, bydd y pwyllgor yn cyfarfod, i drafod eu gweledigaeth, cyn trefnu i gyfarfod penaethiaid yr Ysgolion yn fuan yn y flwyddyn Newydd.

O Gwmpas y Bwrdd

Chwarel Dinorwig - Trist yw nodi fod yna fandaliaeth wedi bod yn y Chwarel. Mae'r cwt sydd uwchlaw Fferinjan - sef cantîn bychan a oedd wedi ei adael fel yr oedd gyd bwrdd bach a chadeiriau, cotiau ac esgidiau ayyb rhai chwarelwyr wedi cael eu canfod wedi eu difrodi yn llwyr. Bydd y clerc yn ysgrifennu i'r perchnogion i gael ymateb ar beth sydd yn mynd i gael ei wneud am hyn.

Bont Brynrefail - Nodwyd for yna fan wen yn cael ei gadael ar y bont, sydd yn nadu'r bws fynd drwy'r pentref. Tybed oes angen llinellau melyn ar y bont. Y clerc i gysylltu â Chyngor Gwynedd i weld beth sydd bosib ei wneud.

Cadarnhau Taliadau

Derbyniwyd y taliadau ar y rhestr ac arwyddwyd gan y Cadeirydd